ATAL HEINTIAU
Taflen wybodaeth i gleifion

Heintiau streptococol Grŵp A

Taflen Wybodaeth i'r rhai sydd wedi cael cysylltiad agos â Haint Streptococol Grŵp A

Rydych wedi cael y daflen hon oherwydd eich bod wedi bod mewn cysylltiad ag achos o haint streptococol grŵp A (GAS). Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd haint GAS yn effeithio arnoch chi, hoffai'r tîm meddygol i chi allu adnabod arwyddion haint mwy difrifol.

**Beth yw streptococws grŵp A (GAS)?**

Mae GAS yn facteria a geir yn aml yn y gwddf ac ar y croen. Yn y rhan fwyaf o bobl nid yw'n achosi unrhyw symptomau.

**Sut mae heintiau GAS yn lledaenu?**

Mae'r bacteria'n goroesi yn y gwddf ac ar y dwylo yn ddigon hir i ganiatáu iddo gael ei ledaenu'n rhwydd rhwng pobl trwy disian, cusanu a thrwy gyswllt croen. Mae'n bosib i bobl gario GAS yn y gwddf neu'r croen heb unrhyw symptomau salwch. Gelwir hyn o bryd i'w gilydd yn Weithiau gelwir hyn yn gytrefu.

**Pa fath o salwch sy'n cael ei achosi gan GAS?**

Mae'r rhan fwyaf o heintiau GAS yn salwch cymharol ysgafn fel dolur gwddf (a elwir yn 'gwddf strep') neu haint croen fel impetigo. Ar adegau prin, gall y bacteria hyn achosi clefydau mwy difrifol.

**Beth yw haint streptococol grŵp A ymledol (iGAS)?**

Weithiau gall haint GAS difrifol ddigwydd pan fydd bacteria yn mynd i mewn i rannau o'r corff lle nad yw bacteria fel arfer i'w gael, fel y gwaed, y cyhyrau, yr ysgyfaint neu'r llwybr geni ar ôl genedigaeth. Gelwir yr heintiau hyn yn haint GAS ymledol. Dau o'r mathau mwyaf difrifol, ond prin, o haint GAS ymledol yw fasciitis necrotising a Syndrom Sioc Gwenwynig Streptococol.

**Pam mae haint GAS ymledol yn digwydd?**

Mae heintiau GAS ymledol yn digwydd pan fydd y bacteria yn mynd heibio amddiffynfeydd y person sydd wedi'i heintio. Gall hyn ddigwydd pan fydd gan berson friwiau neu doriadau eraill yn y croen sy'n caniatáu i'r bacteria fynd i mewn i'r meinwe, gan gynnwys yn fuan ar ôl genedigaeth, neu pan fydd gan berson lai o allu i frwydro yn erbyn yr haint oherwydd salwch hirdymor neu salwch sy'n effeithio ar y

system imiwnedd. At hyn, credir bod rhai mathau o GAS yn fwy tebygol o achosi haint difrifol nag eraill.

**A ydw i mewn perygl o gael haint streptococol grŵp A ymledol ar ôl dod i gysylltiad agos â chlaf ag iGAS?**

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i gysylltiad â GAS yn aros yn iach ac yn rhydd o symptomau, neu'n datblygu mân heintiadau gwddf neu heintiadau croen. Gall eich meddyg teulu drin yr heintiau hyn yn rhwydd.

Gall pobl iach ddal haint GAS ymledol gan berthynas neu aelod o'u cartref. Os ydynt yn yr ysbyty, gall pobl gael haint GAS ymledol os ydynt wedi bod yn yr un bae â chlaf sydd wedi'i heintio neu wedi derbyn gofal gan weithiwr gofal iechyd sydd wedi'i heintio, ond mae'n anghyffredin iawn. Gallai rhai grwpiau o bobl fod mewn mwy o berygl o ddal haint mwy difrifol, er enghraifft, pobl oedrannus, neu bobl sydd wedi rhoi genedigaeth neu wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

**A oes angen gwrthfiotigau arnaf?**

Mae rhai pobl mewn mwy o berygl o fod yn ddifrifol wael os oes ganddynt haint GAS. Felly, mae pobl sydd wedi dod i gysylltiad ag achos o iGAS ac sydd yn y grwpiau canlynol fel arfer yn cael cynnig gwrthfiotigau:

- pobl hŷn (≥75 oed)
- merched beichiog ≥37 wythnos beichiogrwydd
- merched o fewn 28 diwrnod i roi genedigaeth
- babanod newydd-anedig (hyd at 28 diwrnod oed)
- unigolion sy'n datblygu brech yr ieir gyda briwiau gweithredol (pothelli) o 7 diwrnod cyn i'r person ag iGAS fynd yn sâl i 48 awr ar ôl i'r person ag iGAS ddechrau cymryd gwrthfiotigau, os oeddent mewn cysylltiad â'r person sâl yn y cyfnod hwnnw o amser

***Fel arfer ni fydd angen gwrthfiotigau ar bobl nad ydynt yn un o'r grwpiau hyn cyn belled â'u bod yn aros yn iach.***

**Beth sydd angen i mi fod yn ymwybodol ohono?**

Y peth pwysicaf i fod yn ymwybodol ohono yw arwyddion a symptomau cynnar haint ymledol, a nodir isod: Arwyddion a symptomau cynnar clefyd GAS ymledol:

- Twymyn uchel
- Poenau difrifol yn y cyhyrau
- Poen mewn un rhan o'r corff
- Cochni ar safle clwyf
- Chwydu neu ddolur rhydd
- Dolur gwddf neu donsilitis
- Mân heintiau croen ysgafn fel impetigo
- Brech

**Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn datblygu unrhyw un o'r symptomau hyn?**

Os byddwch yn datblygu unrhyw un o’r symptomau hyn yn y 30 diwrnod ar ôl eich cyswllt diwethaf â’r person sydd â haint iGAS neu yn y 30 diwrnod ar ôl iddynt ddechrau gwrthfiotigau **(yn yr achos hwn mae’r cyfnod rhwng 21/2/24 a 22/3/24)**, pa un bynnag sydd gyntaf, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu gofynnwch am gyngor meddygol ar unwaith.

Dywedwch wrth eich meddyg teulu eich bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael diagnosis o haint GAS ymledol yn ddiweddar a'ch bod wedi datblygu ambell i symptom yr ydych yn poeni amdanynt. Mae'n debygol iawn y bydd eich meddyg teulu yn gofyn i chi ddod i mewn i'r feddygfa er mwyn i chi gael archwiliad. Os ydych chi'n rhy sâl i ymweld â'r feddygfa neu os yw ar gau ni ddylech oedi cyn ceisio cyngor meddygol.

**Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i gysylltiad â GAS yn aros yn iach ac yn rhydd o symptomau, neu'n datblygu mân heintiadau gwddf neu groen. Mae dal clefyd GAS ymledol wedi cyswllt agos yn brin iawn.**

**Gallwch hefyd gael gwybodaeth ddefnyddiol o'r gwefannau canlynol**

https://phw.nhs.wales/topics/strep-a-scarlet-fever-and-igas/